

Prifysgol Caerdydd

Gofyn am ddata personol o dan ddeddfwriaeth diogelu data

1. Mae deddfwriaeth Gwarchod Data yn rhoi'r hawl i chi ofyn am y wybodaeth sydd gan y Brifysgol amdanoch.

Mae gwarchod data'n cyfeirio atoch fel **testun data**, a gelwir y wybodaeth sydd gan y Brifysgol amdanoch yn **ddata personol**.

Gelwir eich cais yn Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun.

2. Mae data personol yn ymwneud â chi fel unigolyn.

Mae ond gennych yr hawl i'ch data personol eich hun, ac nid i wybodaeth sy'n ymwneud â phobl eraill. Byddwch, felly, ond yn cael data sy'n **ymwneud â*** chi fel person. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), [beth yw data personol](#).

3. Wrth wneud cais, dylech fod mor benodol â phosibl. Gallai defnyddio'r [ffurflen](#) ar wefan y Brifysgol helpu.

Pan fyddwch yn gwneud cais, rhowch cymaint o fanylion ag y gallwch i'n helpu, fel:

- enw(au)'r coleg, yr ysgol, yr adran, neu faes arall lle gallai fod gwybodaeth am eich data personol. Bydd angen i chi feddwl am y rhannau o'r Brifysgol rydych wedi cael cysylltiad â nhw.
- y math o wybodaeth y mae gennych ddiddordeb ynddi, fel eich cofnod personol neu'ch ffeil personél.
- eich perthynas â'r Brifysgol, e.e. myfyriwr, aelod o staff, ceisio am le ar gwrs.
- ystod dyddiadau'r wybodaeth – e.e. os oes diddordeb gennych yn eich cofnod myfyriwr, pryd oeddech chi'n fyfyriwr gyda'r Brifysgol?
- unrhyw ddigwyddiadau penodol allai fod yn berthnasol.

4. Nid yw'n bosibl ateb ceisiadau ar gyfer **yr holl ddata sydd ar gael** ar bob adeg.

Nid yw'n bosibl bodloni ceisiadau sy'n gofyn am yr **holl** wybodaeth sy'n bodoli ar draws y Brifysgol heb fanylion pellach. Mae gan y Brifysgol dros 6,000 o staff ar draws nifer fawr o adrannau academiaidd a gweinyddol. Os ydych wedi bod yn y Brifysgol fel aelod o staff neu fel myfyriwr, hyd yn oed am amser byr, mae unrhyw chwiliad o'r systemau ebost a TG ar gyfer pob cyfeiriad atoch chi yn debygol o gynhyrchu nifer fawr o wybodaeth allai gyfeirio atoch chi, ond na ystyrir ei bod yn wybodaeth bersonol. Er enghraifft, bydd chwiliad yn cynhyrchu pob ebost rydych wedi'i anfon neu'i dderbyn erioed yn y

system, ynghyd ag unrhyw gyfeiriad atoch mewn cyfarfodydd, neu gamau a gymerwyd gennych fel gweithiwr.

Bydd angen edrych yn fanwl ar bob darn o wybodaeth, wedyn, i bennu a ydyw'n cynnwys unrhyw ddata personol.

Nid yw ebost neu ddogfen yn cynrychioli eich data personol drwy gynnwys eich enw yn unig. Mae angen i chi fod yn ganolbwynt iddo.

5. Os ydych yn gofyn am wybodaeth sydd yn nwylo aelod o staff byddwn yn gofyn i'r person hwnnw roi'r wybodaeth.

Ni chaiff ceisiadau am wybodaeth amdanoch chi gan aelod unigol o staff eu cynnal heb fod yr unigolyn yn ymwybodol o hynny. Unwaith ein bod yn cael cais am wybodaeth sydd yn nwylo unigolyn, byddwn yn cysylltu â'r person, ac yn gofyn i'r person hwnnw wirio ei ebost a'i ddogfennau am unrhyw wybodaeth sydd ar gael allai fod yn ddata personol i chi. Ni allwn ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth amdanoch chi sydd yn nwylo myfyriwr oherwydd yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r Brifysgol yn ystyried ei hun yn rheolydd data'r wybodaeth honno.

6. Mae rhai darnau o wybodaeth nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddata personol i chi o dan ddeddfwriaeth gwarchod data.

e.e. cofnodion cyfarfodydd; ebyst gwaith pan nad chi yw'r ffocws; polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol; trafodaethau ynghylch ailstrwythuro adrannau; sgriptiau neu recordiadau arholiadau; gwybodaeth a gofnodwyd yn ystod gweithdrefnau cwynion ac achosion disgyblu pan nad chi yw'r ffocws, neu sy'n cael ei hystyried yn ddata personol person arall.

7. Nid yw cais am fynediad at ddata gan y testun yn broses ymchwilio ffurfiol.

O bryd i'w gilydd, bydd person yn gofyn am ymchwiliad i gael gwybod pwy sydd wedi rhannu gwybodaeth amdanynt. Diben cais am fynediad at ddata gan y testun yw pennu pa ddata personol sydd yn nwylo sefydliad, ond nid proses ymchwilio yw hon. Nid ydym yn ymchwilio i faterion y dylid delio â nhw o dan unrhyw brosesau eraill, fel cwynion neu brosesau cwyno.

8. Ni fydd pob ebost yn system y Brifysgol yn ymwneud â busnes y Brifysgol.

Mae rheoliadau TG y Brifysgol yn caniatáu ar gyfer defnydd personol cyfyngedig o ebost. Os yw cais yn gofyn am ddata personol a gwelir bod yr ebyst y gofynnwyd amdanynt wedi cael eu hanfon at ddibenion preifat yn hytrach na phroffesiynol, nid y Brifysgol fydd rheolwr y data ac felly ni fydd unrhyw hawliau'n bodoli o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Ni ystyrir rhyddhau ebyst o'r fath o dan gais mynediad pwnc.

9. Gallai'r Brifysgol wrthod y cais os yw'n ormodol neu'n cynnwys data personol pobl eraill.

Yn ôl [arweiniad ICO](#): gall sefydliad wrthod eich cais am fynediad at ddata gan y testun os yw eich data'n cynnwys gwybodaeth am unigolyn arall, heblaw achosion pan:

- mae'r unigolyn arall wedi cytuno i'r datgeliad, neu
- mae'n rhesymol rhoi'r wybodaeth hon i chi heb gydsyniad yr unigolyn arall.

Wrth benderfynu ynghylch hynny, bydd yn rhaid i'r Brifysgol gydbwyso eich hawl i gyrchu eich data yn erbyn hawliau'r unigolyn arall o ran ei wybodaeth ei hun.

Gall y Brifysgol wrthod eich cais hefyd os yw'n 'amllwg nad oes sail iddo, neu os yw'n ormodol.'

Ym mhob achos, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i chi ac yn esbonio ei phenderfyniad. At hynny, bydd yn rhoi gwybod i chi am eich hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

***Beth yw ystyr 'yn ymwneud â'?**

- Mae'n rhaid bod gwybodaeth yn 'ymwneud â'r' unigolyn y gellir ei adnabod i fod yn ddata personol.
- Mae hynny'n golygu ei bod yn gwneud mwy nag adnabod yr unigolyn – mae'n rhaid ei bod yn ymwneud â'r unigolyn mewn rhyw ffordd.
- Er mwyn penderfynu a yw data'n ymwneud ag unigolyn neu beidio, mae'n angenrheidiol ystyried y canlynol:
 - cynnwys y data – a yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu weithgareddau'r unigolyn?
 - y rhesymau dros brosesu'r data hwnnw; a'r
 - canlyniadau neu'r effeithiau ar yr unigolyn o ganlyniad i brosesu'r data

Gall data, felly, gyfeirio at unigolyn y gellir ei adnabod a pheidio bod yn ddata personol am yr unigolyn hwnnw, am nad yw'r wybodaeth yn ymwneud â'r unigolyn.

Ebrill 2019